

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 194

Pris 80c

Mis Gorffennaf 2017



Yr Actor Gorau.....

PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ymgynghorydd: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Golygydd Lluniau: Mary Jones

Cynorthwy-ydd: Jan Penney **Digwyddiadur:** bethanjones@mentercaerffili.cymru

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais, a Bethan Jones Menter Caerffili

Y Pwyllgor: Yr Uchod, Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, Dafydd Islwyn

e-bost: Golygydd@papurcwmni.cymru **Gweplyfr/ Facebook:** Papur Bro Cwmni

Gwefan: mentercaerffili.cymru/ **Cwmni** 

Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffir gan Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW

Gwasanaethau'r Capeli

Bethel: Mis Gorffennaf

2ail 10.30. John Gwynfor Jones

9fed 10.30. Lona Roberts

16eg 10.30 a 6 o.g. Gyda Tonyfelin

23ain 10.30. I'w gyhoeddu.

30ain 10.30 a 6 o.g. Gyda Tonyfelin

Tonyfelin : Gorffennaf

2il Bore a hwyr Parch Milton Jenkins

9fed Y Felathon: dim modd cyrraedd y capel

16fed 10.30 : Parch Lona Roberts

6.00 Gareth Hughes

23ain Bore a hwyr Parch Milton Jenkins

30ain Bore a hwyr Parch Peter Dewi Richards

Suliau Awst : Tonyfelin a Bethel yn ymuno

6ed Bethel 10.30 : Gareth Hughes

6.00 : June Maxwell

13ydd Tonyfelin 10.30 : Gareth Hughes

6.00: I'w drefnu

20fed Bethel: Bore a hwyr Robert O. Griffiths

27ain Tonyfelin : I'w drefnu

Capel y Groeswen 3:00 o'r gloch

Gorff 9fed Mr Neil Linton a'r teulu

Awst 13eg Mr Gareth Hughes



*Ariennir yn
rhannol
gan
Lywodraeth*

Hanes Cwm Ni

6/7/17 Allan Cook
Trip o gwmpas Canolfan
Llong Ganoloesol Casnewydd
6pm: Uned 20, Estuary Road
Casnewydd, NP19 4SP



7:30pm: Bwyd yn Tiffins
Heol Spytty, Casnewydd NP19 4QR

Ble?
Cwrdd yn y ganolfan yng
Nghasnewydd NP19 4SP
6ed Gorffennaf am 6 o'r gloch
Am ragor o fanylion:
helen.young@coleggwent.ac.uk
01495 333702

Addas ar gyfer dysgwyr hefyd
CANOLRADD
UWCH
HYFEDREDD
Digwyddiad am ddim ond
rhaid talu am eich bwyd eich
hunain!



Cân Actol Ysgol Ifor Bach

Ar y clawr gwllwn lun o Luke Moverley, Blwyddyn 6, Ysgol Ifor Bach. Enillodd Luke y wobr am yr actor gorau yng nghaneuon actol nos Lun Eisteddfod yr Urdd Pen-y-bont. Luke oedd y brenin yng nghyflwyniad "Dillad Newydd yr Ymerawdwr" gan blant yr ysgol. Y testun oedd Chwedl felly roedd rhwydd hynt i ddehongli'r testun yn ôl gweledigaeth y sgriptiwr. Cawsom olwg ychydig yn wahanol ar y chwedl gyda Gog a Juan (Gok Wan) a Donald Trump yn ymddangos ar y llwyfan!

Mae Luke yn dal Tlws Coffa Gwenno. Dyma'r ail dro i blentyn o Went ennill y tlws yma gan i enillydd cyntaf y tlws, Joel Brinton, ddod o Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon. Er ei fod yn actor dawnus, ar hyn o bryd hoffai Luke fod yn beiriannydd cemegol, ymgynghorydd TGCh



neu bêldroediwr pan ychydig yn hŷn. Mae Luke yn awdur hefyd - fe oedd enillydd y gystadleuaeth lenyddol i blant cynradd yn Eisteddfod y Cymoedd y llynedd.

Ar ôl derbyn y newyddion gwych am lwyddiant Luke o'r llwyfan, cafwyd hyd yn oed mwy o newyddion da gan i'r ysgol ennill yr ail wobr yn y gystadleuaeth. Roedd gwaith caled plant a staff yr ysgol wedi talu ar ei ganfed. Cafwydd cefnogaeth wych gan y rhieni swnllyd - a chlapio arbennig i'r gân olaf gan Mrs Edmunds!!

Roedd nifer o blant Bl 5 a 6 wedi bod ar y llwyfan yn barod y diwrnod hwnnw gan iddynt ennill yr ail wobr am Gywaith ar y testun Hamdden. Am ddiwrnod i'w gofio! Diolch blant.

Y Meddyg!?

Mae un neu ddau o bobl yng Nghaerffili a'r cylch sy ddim yn adnabod y bonheddwr hwn, ac efallai yn synnu mai 'Y Meddyg' yw'r pennawd, gan taw Fred Brooks yw'r gwron; symudwr dodrefn o fri i bawb yn yr ardal i bedwar ban. Ond y meddyg fu ei arall-ego am wythnos gyfan ym mis Mehefin, fel actor yng nghynhyrchiad cerddorol criw o actorion o Bontypridd a'r cylch o 'The Railway Children', yn cael ei berfformio yn yr awyr agored ar orsaf lein fach ager Blaenafon.

Roedd y gerddoriaeth a'r canu yn wych ar noson braf o haf oedd yn hirfelyn ond ddim eto'n desog; ond beth oedd yn rhoi hud i'r perfformiad (heb law am Fred, wrth gwrs) oedd y lleoliad ar yr hen orsaf gyda'r brynau yn gefndir a'r haul, fel roedd yn machlud, yn llusern ar y cyfan. Defnyddiwyd y trên fel prop hefyd, â'i hisian yn gefndir sain i'r achlysur a gyda'r gwisgoedd yn mynd â ni yn ôl i oes a fu.

Efallai i chi weld y ffilm gyda Jenny Agutter neu ddarllen y llyfr am helyntion teulu yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf yn symud i ardal wledig bant o'r ddinas yn sgîl restio'r tad ar amheuaeth o fod yn ysbïwr. Fel gyda phob drama gerdd, am wn i, digon annelwig yw'r plot a chostrel ar gyfer y canu yw'r cyfan, gyda'r gerddoriaeth yn cyfleu tristwch a thrallod at y canol yn esgyn i ddiwedd glo afieithus. Yn sicr, llwyddodd y cynhyrchiad gyfleu'r emosiynau i gyd. Bu rôl Fred yn gyfrifol am yr elfennau mwy prudd, yn arolygu dros salwch sawl cymeriad ond bu ei ymgeledd yn dra llwyddiannus neu fyddai dim llawer o afiaith i'r diwedd glo. Cofiwch chi, fyddai dim llawer o ffydd gen i ynddo fel ymgeleddwr go iawn, ond wyddoch chi ddim gyda Fred.



Gareth Wyn Williams

Llywelyn Ein Llyw Olaf yng Nghaerffili

Dr Elin Jones

Mor braf yw bod yng nghastell Caerffili ar ddiwrnod braf o Fehefin, a chael yno fwrlwm o iaith a diwylliant Cymru! Dathlu Cymreictod ein bro yw bwriad Ffiliffest, a llongyfarchiadau i Fenter Iaith Caerffili am drefnu'r holl weithgareddau amrywiol sy'n cyfrannu at lwyddiant y diwrnod – blwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mae'r castell ei hun, wrth gwrs, yn ein hatgoffa o goncwest y Normaniaid, ganrifoedd maith yn ôl. Codwyd y muriau cedyrn gan Gymry, mae'n bur debyg, ond Cymry dan orfodaeth, yn cael eu gorchymyn i adeiladu amddiffynfa eu concwerwyr. I mi, does dim harddwch na rhamant mewn castell: mae pob un yn f'atgoffa o drais, casineb a chwerwder yr oesoedd a fu. Arbennig o hyfryd felly yw clywed seiniau'r Gymraeg o fewn muriau tywyll castell Caerffili a gweld plant diniwed heddiw yn chwarae gyda theganau o offer ymladd yr hen oesoedd treisgar.



Ond nid dyma'r tro cyntaf o bell ffordd i Gymry Cymraeg drin y cledd ar dir castell Caerffili. Codwyd y castell a welwn heddiw gan Gilbert de Clare ym 1272 – ar olion castell cynharach o'i eiddo a ddistrywwyd ym 1270 gan neb llai na'n Llyw Olaf, Llywelyn ap Gruffudd. Mae Brut y Tywysogion yn crynhoi ymgyrch Llywelyn i un frawddeg gwa: “Y flwyddyn honno y goresgynodd Llywelyn ap Gruffudd gastell Caerffili”. Fe ddaw'r frawddeg rhwng hanes marw Maredudd ap Gruffudd yng nghastell Llanymddyfri, a marwolaeth Louis, brenin

Ffrainc, yng nghroesgad y flwyddyn honno - peidied neb â dweud bod ein croniclwyr yn blwyfol!



Roedd de Clare wedi dechrau adeiladu castell yng Nghaerffili ym 1268, er mwyn dangos ei awdurdod dros diroedd ym Morgannwg a hawliwyd gan Llywelyn. Credai Llywelyn fod telerau Cytundeb Trefaldwyn ym 1267 yn rhoi'r awdurdod iddo ef. Bu sawl ymgais i dawelu'r anghydfod, ond methodd pob un. Y canlyniad oedd ymgyrch lwyddiannus Llywelyn ym Morgannwg ym mis Hydref 1270.

Cwynodd de Clare wrth frenin Lloegr, gan honni bod Llywelyn wedi camddehongli telerau Cytundeb Trefaldwyn, ac ym Mehefin 1271 dechreuodd godi castell arall yng Nghaerffili. Bu rhagor o drafod rhwng y Cymry a'r Normaniaid, gydag esgobion Caerlwytgoed (*Lichfield*) a Chaerwrangon (*Worcester*) yn ceisio trefnu telerau cytundeb newydd rhwng Llywelyn a de Clare. Ym mis Tachwedd, 1271, yng Nghaerffili, llwyddodd yr esgobion lunio cytundeb gredadwy - gyda chymorth Dafydd ap Gruffudd, brawd Llywelyn.

Does gen i mo'r gofod na'r amser i ddilyn hanes cymhleth y blynyddoedd dilynol, hanes a orffennodd mewn sgarmes yng Nghilmeri ym 1282, a dwi ddim yn siwr chwaith faint o ddiddordeb fyddai gyda chi yn yr hanes hwnnw. Ond dyma rai geiriau eraill o'r gorffennol i gloi'r pwt hwn o hanes gwaedlyd castell Caerffili.

Wedi dienyddiad creulon Dafydd ap Gruffudd ap Llywelyn ym 1283, canodd Bleddyn Fardd farwnad bwerus iddo ef a'i ddau frawd, Owain a Llywelyn. Mae'r pennill sy'n cyfeirio'n benodol at Llywelyn Ein Llyw Olaf yn gorffen gyda llinell sy'n rhoi darlun byw i ni o'r tywysog ac o'r math o olygfeydd oedd i'w gweld yng Nghaerffili saith gant o flynyddoedd yn ôl. Roedd Llywelyn ap Gruffudd, yn ôl y bardd, yn 'Llafngoch walch yng nghalch yng Nghaerffili' – roedd fel hebog yn ei wisg arfau addurniedig, llafn ei gledd yn goch gyda gwaed ei elynion, a hynny ar dir ein cwm ni, ganrifoedd maith yn ôl...

Mae NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun. Lluniau ydyn nhw o bethau i fynd i lan y môr.
Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?



Mae enw13 o drefi glan y môr Cymru yn y **Chwilair**.

Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?



Trefi Glan y Môr

Y BARRI	CEI NEWYDD	LLANGRANNOG	
ABERPORTH	CRICIETH	ABERSOCH	
HARLECH	BENLLECH	PORTHCAWL	
MWNT	COLWYN	ABERYSTWYTH	RHYL

Nawr, trowch i dudalen 15 i weld a oedd eich atebion yn gywir.




Mae ein cwmni drama lleol, Cwmni Cwm Ni, yn paratoi rhaglen o weithgareddau ar gyfer ein seithfed mlynedd ar hugain o berfformio. Mae'r cwmni o bryd i'w gilydd wedi bod yn llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac mewn Gŵyl Ddrama.

Rydym wedi llunio rhaglen o nawr tan Haf 2018 ac mae cyfleoedd ar gyfer unrhyw un sydd am ymuno â ni. Does dim galw am unrhyw brofiad blaenorol gan fod lle i'r sawl sydd am helpu y tu ôl i'r llenni, am gofweinyddu, gwneud gwaith technegol neu actio rhan fach.

Rydym yn cyfarfod bob nos Lun yn festri capel Tonyfelin ar Heol Bedwas, Caerffili gan ddechrau am 7:00 o'r gloch gyda choffi, bisgedi a chlonc "fach".

Beth amdani? Am fwy o fanylion cysylltwch â Ben Jones ar benamary2000@yahoo.co.uk, 02920862428/ 07891916046



'Dan Amheuaeth', John Alwyn Griffiths oedd ein pwnc trafod pnawn Llun 5 Mehefin. Dyma nofel fyrlymus arall gan yr awdur hwn a fu'n bennaeth Adran Dwyll Heddlu Gogledd Cymru. Roeddwn yn edrych ymlaen i'w darllen ac ni chefais fy siomi. Mae'n cymharu'n ffafriol â nofelau eraill yr awdur ac efallai'n rhagori rhywfaint arnyn nhw. Mae'n symud ymlaen yn

gyflym a chredadwy o un digwyddiad i'r llall a buan iawn y cyrhaeddais y dudalen olaf. Mae yma 'linyn storiol cryf' ac mae'r cyfan wedi'i gynllunio'n grefftus o'r dechrau i'r diwedd.

Ar ddechrau'r nofel mae'r Ditectif Sarjant Jeff Evans yn fodlon ei fyd. Mae ganddo dŷ newydd, moethus mewn safle gogoneddus. Mae'n briod â Meira, sy'n gyn-blismones, ac mae ganddynt fab bychan. Yn anffodus, mae gan Jeff elyn ac mae'r gelyn hwn â'i fryd ar ddifetha ei fywyd a'i yrfa. Ar ddechrau'r stori caiff troseddwr ei ryddhau o garchar. Mae'r stori yn datblygu'n gyflym ac yn mynd yn fwy cymhleth a phell-gyrhaeddol. Cawn ein tywys o ogledd Cymru i Lundain, carchar Prescoed, y fferi o Gaergybi i'r Iwerddon, ac fe ymwelir â Llysgenhadaeth Swltaniaeth Oman yn Llundain.

Mae'r nofel yn hawdd i'w darllen, gyda phopeth yn dilyn yn synhwyrol; ceir disgrifiadau clir o'r gwahanol sefyllfaoedd ac ymddygiad y cymeriadau. Gwelir sut mae gwybodaeth drylwyr (ddisgwyliedig) yr awdur o weithdrefnau'r heddlu yn gyrru'r stori yn ei blaen ac fe welwn anonestrwydd a llwgrwobrwyo ymysg aelodau'r heddlu, yn enwedig Heddlu Llundain. Fe'n cyflwynir hefyd i amgylchiadau rhyngwladol, a chymeriadau â chysylltiad â gwledydd fel Irac, Syria a Thwrci, a mudiadau fel IS.

Mae'r defnydd o dechnoleg fodern gan yr heddlu a

hefyd gan y troseddwr yn chwarae rhan allweddol yn nhaith anodd Jeff drwy gefn gwlad gogledd Cymru yn y nos wrth iddo ddilyn cyfarwyddiadau'r herwgipiwr sydd wedi mynd â Twm, ei fab.

Mae'r nofel yn llawn cymeriadau amrywiol, gan gynnwys rhai amheus, fel y byddech yn disgwyl dod ar eu traws mewn stori dditectif. Yn gynnar yn y stori (yn rhy gynnar ym marn ambell un o'n cyd-ddarllenwyr) mae un o gydweithwyr Jeff yn mynegi amheuan am gymeriad Dan, y ditectif ifanc deallus sydd bob amser yn barod iawn ei gymorth, ond ni chawn wybod am ei dwyll tan y diwedd.

Cawn hefyd gwrdd â chymeriadau annymunol a dichellgar ymysg Heddlu Llundain, ac ni ddylid anghofio'r Prif Arolygydd Pritchard sy'n ymdrin â chwynion yn erbyn swyddogion yr heddlu ac yn ymosodol ei agwedd tuag at Jeff.

Os ydych wedi darllen y nofelau blaenorol fe gofiwch fod Jeff wedi defnyddio rhai dulliau amheus yn y gorffennol wrth iddo ddelio â throseddwr. Gwelwn ei gymeriad byrbwyll ar waith eto, yn enwedig pan fo diogelwch ei deulu yn y fantol. Fodd bynnag, mae ganddo gyfeillion da ymhlith ei gydweithwyr a thrwyddyt hwy fe'i galluogir i fwrw ymlaen i ddatrys yr holl ddirgelwch gan gynyddu'r tensiwn i'r darllenydd a dod i ben y daith mewn modd dramatig.

Credaf fod hon, fel y tair nofel cynt, yn un o'r goreuon ymhlith y nofelau ditectif Cymraeg. Os nad ydych wedi'i darllen, archebwch gopi neu ewch i'r llyfrgell yn ddiymdroi. Rwyf newydd weld ar www.gwalesw.com fod nofel dditectif arall gan JAG i'w chyhoeddi ym mis Medi. Rwy'n siwr y bydd croeso i hon hefyd.

"Pantywennol" gan Ruth Richards fydd sail ein trafodaeth yn y cyfarfod nesaf. Beth am ymuno â ni am 2.00 o'r gloch pnawn Llun 3 Gorffennaf yn Llyfrgell Caerffili?

20fed Penblwydd

Mae'n papur bro yn ugain mlwydd oed ac mae'n fwriad gennym ddathlu'r achlysur y flwyddyn nesaf i gydfynd â chyhoeddi'r dauganfed rhifyn. Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal parti yng Nghanolfan y Glowyr ar fis Mawrth y 9^{fed} gyda siaradwyr gwadd a lluniaeth. Ond mae un peth sydd ar goll yn ein trefniadau:

DOES DIM COPI O'R RHIFYN CYNTAF UN GENNYM !!!

Tybed, felly all rhywun ein helpu? Os oes gennych gopi o'r rhifyn cyntaf, wnewch chi gysylltu ag un o'n swyddogion, os gwelwch yn dda. Mae eu manylion ar dudalen 2 y rhifyn hwn.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad cynhesaf i'r Parchedig Denzil John ar farwolaeth ei fam ganol mis Mehefin. Mae'n meddyliau hefyd gyda Sian, gwraig Denzil, Aled a Luned a'u teuluoedd gan gynnwys y gorwyrion yng Nghaerffili a Nelson.

Priodol yw nodi'r hanesyn trist-ddoniol a adoddodd Denzil i gofio mam a oedd yn 93 mlwydd oed, newydd dorri ei choes ac wedi dechrau dangos arwyddion o'r dementia.

Yn ystod ei hwythnosau olaf gofynnodd i Denzil pwy oedd e! Eglurodd Denzil mai ef oedd ei mab a'i fod yn frawd i Dylan. "O," meddai ei fam "mae'n rhaid ein bod yn perthyn felly!"

Hyfryd meddwl fod gan y teulu atgofion cynnes o'u mam a'u mam-gu ac yn gallu cofio amdani â gwen.

TONYFELIN – SUL O FAWL

gan Eirian Dafydd

Mewn dyddiau pan fo cymaint o alwadau ar amser ein plant a'n hieuenctid, nid hawdd yw cael pobol ynghyd mewn capel neu eglwys ar fore dydd Sul. Ond trwy ymdrechion criw bach o bobl llwyddwyd i gael oddeutu 60 o blant o bump o ysgolion cynradd Cymraeg Cwm Rhymni i ddod at ei gilydd ar fore Sul, 21^{ain} o Fai, ar gyfer ein Sul o Fawl blyneddol. Hyfryd oedd gweld nifer o rieni



Marged, Steffan, Rhys, Sioned a Naomi

a chyfeillion wedi troi i mewn i gefnogi'r plant. Golygfa hardd i'n gweinidog, y Parchedig Milton Jenkins, oedd gweld llawr y capel yn llawn a nifer dda yn eistedd ar y galeri hefyd.

Cafwyd orig hyfryd, llawn hwyl a digon o ganu dan arweiniad Anne Evans a'r gyfeilyddes Helen Hollyman. Ond nid jyst eistedd yn eu seddau yn canu emynau a chaneuon ffydd fu'r plant. Ar sawl achlysur buont ar y llwyfan yn cyfeilio trwy ganu offerynnau cerdd o ddiwylliannau amrywiol - o'r maracas i'r drwm, o'r tamborin i'r triongl, ac o'r castanets i'r drwm glaw a

llawer mwy. Llwyddodd y plant, ac, er mawr syndod, yr oedolion hefyd i ddysgu tôn gron dan arweiniad Anne. Cafwyd eitem gan gôr o blant o'r gwahanol ysgolion. Pleser oedd gweld y plant yn gwenu ac yn mwynhau eu hunain. Wedi'r arlwy cerddorol, arlwy o fyrbrydau yn y festri cyn troi am adref.

Gyda'r hwyr daeth tua saith deg o oedolion o eglwysi Cymraeg ac eglwysi Bedyddiedig y Cwm at ei gilydd i ddathlu tri chan mlwyddiant geni yr emynydd Pantycelyn. Arweiniwyd yr oedfa hon gan Steffan Jones, ŵyr ein gweinidog, â Helen wrth yr organ unwaith eto. Cafwyd canu cynulleidfaol pedwar llais i ddeg o emynau mwyaf cyfarwydd William Williams a nodau a harmonïau'r tonau yn atseinio o amgylch y capel. I nifer, mae'n siwr, mai uchafbwynt y noson oedd gwrando ar bedwarawd a ffurfiwyd gan Steffan yn canu geiriau Ieuan Gwyllt - *Mi glywaf dyner lais*. Roedd lleisiau y pedwar ifanc – Naomi, Sioned, Rhys a Steffan yn asio'n berffaith. Cyfeiliwyd iddynt gan Marged, chwaer Steffan. Ail eitem oedd cyfraniad gan gôr o ferched o'r gwahanol gapeli yn canu un arall o emynau poblogaidd Pantycelyn – *Pererin wyf mewn anial dir*. Wedi'r canu bu cymdeithasu yn y festri dros baned a danteithion sawrus a melys.

Ymgais oedd y dydd i genhadu, ac yn sicr fe lwyddwyd i gael criw da o blant, nad ydynt fel arfer yn mynychu lle o addoliad, i ddod i'r oedfa. Hefyd, oherwydd lleoliad y capel yn agos i archfarchnad fawr, fe welir yn aml bobl yn cerdded heibio yn ystod yr oedfeun. Ar y Sul o Fawl hwn, ni allai'r siopwyr hyn fod wedi mynd heibio heb glywed y mawl a'r gân. Gobeithio bod ambell un wedi aros am ennyd i wrando ar ein haddoliad.

Beth am dderbyn eich papur bro misol dros y we. Mae yna fanteision.....

- ♦ Byddwch yn derbyn eich papur yn syth.
- ♦ Byddwch yn gweld pob un dudalen mewn lliw.
- ♦ Byddwch yn arbed papur.

Gyrrwch eich cyfeiriad ebost at y Golygydd, does angen gwneud dim byd mwy!

benamary2000@yahoo.co.uk / Golygydd@papurcwmni.cymru

Cystadleuwyr BUDDUGOL CDT Cenedlaethol yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái 2017 Sir Caerffili—Rhanbarth Gwent

Dyma rai o enillwyr ysgolion Sir Caerffili gyda detholiad o waith enillwyr eraill.

Print Monocrom Bl. 10 a dan 19 oed
2 Arwen Teagle Ysgol Cwm Rhymni 3

Print Lliw Bl.10 dan 19 oed
Arwen Teagle Cwm Rhymni

Dylunio a Thechnoleg Bl 3 a4
3. Owen Moverly, Ysgol Ifor Bach



Rownd Derfynol Cwpan Ysgolion Cymru 2017



Coronwyd tîm pêl droed merched Ysgol Gyfun Cwm Rhymni dan 13 yn bencampwyr 2017 Cymdeithas Pêldroed Ysgolion Cymru.

Trechodd ein merched dîm Ysgol Llanfair Caereinion mewn stadiwm yng Nghroesoswallt yn y rownd derfynol, eu seithfed buddugoliaeth ar eu taith tuag at y cwpan. Roedd hyn yn goron ar ymdrechion merched Blwyddyn 7 ac 8 wrth iddynt wneud yn iawn am golli yn rownd derfynol 2014. Er hynny, cael a chael oedd hi am mai di-sgôr oedd hi ar ddiwedd y gêm. Ond diolch byth i'n merched ennill y gystadleuaeth ciciau cosb a hynny o 4 gôl i 3.

Bydd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni felly yn cynrychioli Cymru yn Lilleshall yn ystod yr hydref, drwy gystadlu yn erbyn ysgolion o Loegr a'r Alban.

Derbyniodd yr ysgol glod gan y Cynghorydd Nigel George, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol, a deimlai bod eu camp yn adlewyrchiad o'r holl waith caled a wnaed a'r hyfforddiant a gafwyd yn ystod y flwyddyn.

A bu'r ysgol yn bresennol yn y Celtic Manor i dderbyn tlws am ennill gwobr Ysgol y Flwyddyn dan gynllun "Chwarae mwy o bêl droed" Lidl. Ar ôl derbyn y tlws gan Ian Rush, un o arwyr pêl droed Cymru, mynnodd Rosie Morgan, aelod o dîm hyfforddi blwyddyn 10, i'r cynllun gael effaith sylweddol ar gymuned yr ysgol. "Mae'n amlwg yn gamp fawr i ennill, oherwydd mae popeth a wnawn yn yr ysgol yn golygu rhywbeth. Nawr ein bod wedi ennill gallwn ddangos i weddill yr ysgol bod yr hyn a wnawn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae'n grêt gallu dangos i'r holl waith caled a wnaethom ni dalu ffordd.



Y tîm: Caitlin Jones, Alys Jones, Amelia Mills, Erin Jay, Ffion Green, Lori Box, Megan McVey, Maisie Jones(g), Eleri Gibbons, Ruby Lewis, Bo—Lilli Howells, Megan Evans, Holly Hughes (c), Millie Jones.

Hanes Cwm Ni

Clwb Rygbi Penallta
Ystrad Mynach CF82 7EP
7:00yh
Am ragor o fanylion:
helen.young@coleggwent.ac.uk

7/9/17 Dr Siân Rhiannon

5/10/17 Yr Athro Wyn James

Taith Gerdded Hanesyddol
o gwmpas Rhymni

Williams Pantycelyn
ac ardal Caerffili

6.30 y.h

9/11/17 Yr Athro Bill Jones

Ymfudo o Gymru i America
yn C19eg

Cwrdd: Llyfrgell Rhymni

NP22 5NU

7/12/17 Cwis Hanes Cymru



Mae'r Siarter Iaith ar Waith ym Mro Sannan!

Mae bwrlwm o weithgareddau ym Mro Sannan i hybu egwyddorion y Siarter Iaith! Braf yw clywed plant blwyddyn 5 a 6 yn canu "Gwena" gan *Gwibdaith* a blwyddyn 1 a 2 yn bloeddio canu "Yma o Hyd"...

Mae Cymraeg yn iaith hen iawn.

Mae mami eisiau fi i helpu hi i ddysgu Cymraeg

Roedd pobl wedi ymladd i siarad Cymraeg yn Oes Fictoria.

Pam siarad Cymraeg...?!
(Barn dosbarth Afallen-blwyddyn 2)

Rydyn ni'n gallu deall "Cyw"!

Mae Aaron Ramsey yn siarad Cymraeg

Rydw i'n dwli canu "Gwena" gyda Miss Jones.

Araith fuddugol "Cystadleu-iaith" y Campwyr Cymraeg

gan Gracie, Tomas, James, Mia a Gabriella -dosbarth Celynnen-blwyddyn 6.

Rydyn ni'n credu bod yr iaith Gymraeg yn hollbwysig i ni fel Cymry, yn bwysicach nawr nag erioed o'r blaen.

Yn ein barn ni mae'r Gymraeg yn rhoi cyfle i ni ddatblygu sgiliau ychwanegol, yn fwy na phobl sy'n siarad un iaith yn unig. Rydyn ni'n fwy tebygol o allu dysgu iaith ychwanegol, fel Ffrangeg neu Sbaeneg, os ydyn ni'n ddwyieithog, achos bod yr ymennydd wedi arfer ag ymdopi gyda mwy nag un iaith. Mae'r iaith Gymraeg yn rhoi rhywbeth ychwanegol i ni fel cenedl, mae'n rhan ohonom fel Cymry.

Serch hynny, mae ochr arall i'r ddatl. Yn ôl Llywodraeth Cymru, dim ond 33% o bobl rhwng 16-24 oed sy'n dweud eu bod yn siaradwyr Cymraeg ac mae hwn yn gostwng. Yn ôl cyfrifiad 2011, dim ond 19% o holl bobl Cymru sy'n siarad Cymraeg yn ystod amser hamdden. Mae hwn wedi gostwng 2% ers 2001. Mae mwy a mwy o bobl yn ystyried Cymraeg fel iaith "farw" ac yn dweud bod dim pwynt i gadw'r iaith oherwydd does neb yn ei siarad.

Er gwaethaf hyn mae siaradwyr Cymraeg De Cymru wedi cynyddu! Rydyn ni'n teimlo'n gryf bod Caerffili yn enwedig yn cadw'r iaith yn fyw. Mae 11 ysgol gynradd yng Nghaerffili ac Ysgol Cwm Rhymni yn tyfu bob blwyddyn. Yng Ngwynedd mae POB ysgol yn ysgol Gymraeg! Mae hwn yn wych! Credwn yn gryf fod plant yn dysgu'n well mewn ysgolion Cymraeg na rhai Saesneg ac mae hwn yn beth positif iawn!

Beth felly am y bobl sy'n dadlau bod Cymraeg yn iaith ysgol yn unig ac nid yn iaith gymdeithasol. Eu barn nhw yw pam gorfodi plant i siarad Cymraeg os dydyn nhw ddim yn ei defnyddio yn gymdeithasol. OND-mae gennym ateb i hwn! Mae'n rhaid i blant Cymru sicrhau bod hwn yn newid! Siaradwch Gymraeg y tu fas i'r ysgol! Defnyddiwch apps Cymraeg! Tecstwch yn Gymraeg! Trydarwch yn Gymraeg! Gwrandewch ar fandiau Cymraeg! **Mae'r iaith yn rywbeth i drysori! Eich penderfyniad CHI yw e....DEFNYDDIWCH YR IAITH NEU BYDDWCH YN BAROD I WELD Y GYMRAEG YN DIFLANNU....!**

Manifesto Siartwyr Sannan

gan ddosbarthiadau Celynnen a Helygen

Rydym ni eisiau gweld:

- mwy o blant yn siarad Cymraeg y tu fas i'r ysgol.
- mwy o blant yn gwylio rhaglenni Cymraeg.
- mwy o blant yn gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg.



Rydym ni yn credu:

- bod hawl gan bawb yng Nghymru i ddysgu Cymraeg.
- bod hawl gan bawb i wyllo rhaglenni amrywiol ac o ansawdd
- bod hawl gan gerddorion Cymru gael eu clywed ar fwy nag un sianel.

Rydym ni wedi ymrwymo i:

- hysbysu plant am gyfleoedd i ddefnyddio Cymraeg y tu fas i'r ysgol.
- hysbysu plant am raglenni newydd yn y Gymraeg.
- gynnig adnoddau digidol newydd i blant.
- gynnig adnoddau darllen Cymraeg i rieni.

Beth yw'r Gymraeg i ni...?

gan ddosbarth Ffawyddden (blwyddyn 3 a 4)

Iach ac iraidd-cyfle i ddathlu

Arbenigrwydd ein gwlad.


Iaith hynaf Ewrop a

Thrychineb fyddai ei cholli!

Cefndryd i Evan a James James? gan Jan Penney

Rwy wastad wedi bod wrth fy modd gyda hel achau ac a dweud y gwir hel achau oedd yn rhannol gyfrifol am fy mhenderfyniad i symud i Gaerffili o Lundain dros ugain mlynedd yn ôl erbyn hyn. Er i fi gael fy ngeni a fy magu yn Ne Lloegr, mae fy nheulu ar ochr mam fy nhad yn byw yng Nghaerffili ers o leiaf dau gan mlynedd a hanner. Wrth olrhain eich teulu ddylech chi fyth anwybyddu hen straeon sy wedi cael eu pasio ymlaen o genhedlaeth i genhedlaeth. Un o'r straeon hynny yn fy nheulu i yw ein bod ni'n perthyn i Evan James a James James, y ddau ddyn enwog y mae darllenwyr Cwmni yn hen gyfarwydd â nhw, fel awdur geiriau a chyfansoddwr alaw Hen Wlad Fy Nhadau. Ond sut mae profi hyn?

Mrs Ann Mitchell, pobydd o Gaerffili ac aelod selog o Fethel, oedd mam-gu fy nhad a aeth e i fyw gyda hi yn dair oed ar ôl i'w fam farw o'r diciâu yn 1911. Roedd fy nhad, ei fam-gu a'i fodryb Emily a'i theulu yn byw yn y tŷ ar y gornel gyferbyn â'r orsaf drenau a fu yn swyddfa




Evan James, y tad

nhad fynnodd ei bod hi'n perthyn i Evan a James James. Ann Stradling oedd ei henw cyn priodi ac roedd hi hefyd yn dweud bod y teulu Stradling o Gaerffili yn hanu o'r Stradlings o Gastell Sain Dunwyd ger Llanilltud Fawr. Rwy'n cofio i gefnder i mi ddweud wrthyf, pan glywodd mod i'n gwneud ymchwil hanes teuluol: "Tria gael y castell yn ôl i ni, wnei di?"

Ta waeth am hynny, pan ddechreuais i olrhain y teulu, doedd dim tystiolaeth yn y cofnodion am unrhyw gysylltiad gyda'r teulu James.

Ond yn ddiweddarach darganfyddais i taw Elizabeth Stradling oedd enw mam Evan James. Roeddwn i wedi llwyddo i olrhain y teulu yn ôl i'r ddeunawfed ganrif ond doedd dim sôn am Elizabeth yn y cofnodion. Er



James James, y mab

hynny, wrth edrych eto ar yr holl wybodaeth rwy wedi ei chasglu rwy'n gallu gweld nawr ble gallai Elizabeth o bosib ffitio i mewn i'r siart achau.

Roedd teulu Ann, fy hen fam-gu, yn ymwneud â'r diwydiant gwlan, fel roedd y teulu James

yn gwneud. Roedd ei thad Thomas

Stradling, yn wehydd, ac roedd ei dad yntau, William Stradling, wedi rhentu Melin Wlân y Castell ar brydles ar un adeg. Ond gwneuthurwr watshiau a chlociau oedd Lewis, tad William. Yng nghofrestri bedyddiadau plwyf Eglwysilan des i o hyd i wyth o blant Lewis Stradling a'i wraig, Margaret, rhwng 1778 ac 1798, sef Richard, William, Jane, Thomas, Mary a John a dau fu farw yn blant bach, William a Jane. Dyddiad geni Elizabeth Stradling oedd 3.1.1774 yn ôl disgynyddion Evan James. Petasai plant eraill y teulu wedi cael eu geni neu eu bedyddio rywle arall, byddai Elizabeth yn ffitio i mewn yn daclus o flaen Richard. Mae gyda fi deimlad taw dyna ddigwyddodd a dyna'r cysylltiad rhwng y ddau deulu.

Os yw hyn yn wir, roedd tad fy hen fam-gu, Thomas Stradling, y gwehydd, yn gefnder cyfan i Evan James, y bardd. Ond ble mae'r dystiolaeth i brofi hyn? Dyw cyfnod bedydd Elizabeth ddim wedi dod i'r golwg hyd yn hyn. Byddaf yn parhau i chwilio.

Gol: . Cofiaf mai Philip James STRADLING Williams oedd enw llawn Dr Phil Williams, Bargoed. Tybed all rhai o'n darllenwyr helpu Jan wrth iddi ymchwilio ymhellach.

Dillad Jansan

Agorwyd siop ddillad newydd yn Aberbargoed ychydig amser yn ôl a honno'n siop sy'n cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg.

Perchennog y fusnes newydd hwn yw Shane Needs a oedd eisoes wedi agor siop yn cynnig gwisg ysgol, dillad gwaith a chit hamdden yn Nhrelyn. Ond buan y tyfodd y fenter a rhaid oedd dod o hyd i safle llawer mwy. Daethpwyd o hyd i uned ar Ystad Bowen, Aberbargoed, ger swyddfeydd Menter Iaith Sir Caerffili, ac yno cewch ddetholiad eang o wisgoedd lliwgar. Hyd yn hyn mae Shane a'i gydweithwyr yn dal stoc ar gyfer Ysgolion Cymraeg, Trelyn, Bro Sannan, Cwm Derwen, Bro Allta, Gilfach a Phenalltau.



Ar ben hyn i gyd mae gwisgoedd yr ysgolion lleol, ac mae'n fwriad gan Shane ddarparu ar gyfer Ysgolion Cymraeg eraill y sir yn y man. Diddorol oedd gweld gwisg Ysgol Gyfun Islwyn, sef yr ysgol a sefydlwyd i gymryd lle ysgolion cyfun Pontllanfraith ac Oakdale a'r ffaith fod y bathodyn ar flaser smart yr ysgol newydd yn ddwyieithog.



Cyn-ddisgybl yn Ysgol Trelyn ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yw Shane ac fe'i derbyniwyd i ganlyn cwrs hyfforddiant i fod yn athro yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Ond ymhen byr amser penderfynodd ei fod am symud i fyd busnes gan fentro agor ei siop ei hun. Bu hefyd yn gweithio fel cynorthwy-ydd addysgu yn Ysgol Penalltau. Ac, o edrych yn ôl, gwnaeth Shane fwynhau'r profiad o weithio gyda'r ysgol ond gan edrych

ymlaen at y blynyddoedd i ddod, gadawodd yno yn 2015 i weithio amser llawn yn y fusnes.

Yn ogystal â lifrau ysgolion mae Shane yn darparu gwasanaeth brandio nwyddau ar gyfer dillad pêl-droed, busnesau a'r cyhoedd. Uned G, Ystad Ddiwydiannol Bowen, Aberbargoed CF81 0EP yw lleoliad newydd y fusnes.

Mae'r cwmni yn defnyddio gwefannau cymdeithasol wrth hysbysebu nwyddau newydd sydd yn y siop. Ffeindiwch Jansan Wear ar Facebook a Twitter wrth ddefnyddio @JansanWear.

Byddwn yn cynnwys hysbyseb y cwmni yn y papur bro o bryd i'w gilydd yn y gobaith y bydd ein darllenwyr yn cefnogi menter sy'n ymdrechu i ddefnyddio'r Gymraeg a chan ddymuno pob llywyddiant i weledigaeth Shane.



Yr Ŵyl Flodau




Cynhelir Gŵyl Flodau Cyngor Tref Caerffili eleni ar y 14eg, y 15fed a'r 16eg o Orffennaf. Eleni eto bydd arddangosfeydd hyfryd o flodau mewn 12 lleoliad hyd a lled y dref – yn bennaf mewn addoldai.

Yng nghapel Bethel, Heol Nantgarw, yn ychwanegol i'r arddangosfa flodau bydd grŵp dydd Gwener artistiaid lleol yn arddangos eu gwaith. Gwaith y grŵp hwn sy'n ymddangos ar dudalen gefn "Cwmni" bob mis.

Wrth i'r Ŵyl fynd o nerth i nerth dywed y Cynghorydd James Fussell bod cynlluniau ar y gweill i ddatblygu'r Ŵyl ymhellach. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r cyngor ar 02920888777 neu ar www.caerphilly.gov.uk/events


Dafydd Islwyn yn cofio Ray Evans



Mynnai John L. Williams, athro Cymraeg Ysgol Gyfun David Hughes Beaumaris, Ynys Môn, bod tri neu bedwar ohonom yn prynu Y Faner bob wythnos. Bob hyn a hyn yn y papur hwn, oedd mor bwysig i'n niddordeb yn Y Pethe, cyhoeddwyd cerddi gan Ray Evans, Caerdydd. Cerddi a ehangodd fy ngorwelion barddonol; cerddi a ddangosodd fod barddoniaeth tu hwnt i englynion a thelynegion Sir Fôn bryd hynny.

Ychydig a feddyliais ddiwedd pum degau'r hen ganrif y buaswn yn sathru cynn Ray Evans ymhen rhyw ugain mlynedd! Bum mor hy a beirniadu yn gyhoeddus, raglen Pabell Llen Y Genedlaethol, Caerdydd, 1978.

Y bore yn dilyn y cyhoeddiad deuthum wyneb yn wyneb â Ray Evans, Ysgrifennydd y Pwyllgor Llên lleol, a dywedodd y drefn wrthyf. Yn y drafodaeth a ddilynodd ei sylwadau cefais



fy amddiffyn gan Jennie Eirian - does ryfedd fod gen i feddwl mawr o Jennie.

Bu Ray Evans yn aelod o dîm Talwrn y Beirdd Bro Morgannwg. Yng nghyrol 4 Pigion Talwrn y Beirdd, 1988, cyhoeddwyd ei thelyneg 'Tocyn', cerdd sy'n werth ei darllen. Sôn y

mae'r gerdd am fam yn profi'r rhwyg pan mae mab yn gadael cartref wrth ei weld yn codi tocyn un ffordd yn y stesion leol,

'Hi'n unig deimlai'r braw o'i weld yn cychwyn
Yn codi'i docyn unffordd gyda gwên,'

Dyma'r pedair llinell sy'n cloi'r delyneg, dau bennill wyth llinell yr un,

Wylodd am yuppie uniaith y dyfodol
A fu'n etifedd breiniog yn ei chôl
Na fedrai mwy, er llawned fydda'i waled
Fyth godi tocyn unffordd eto'n ôl.

Yn y Genedlaethol, Abergwaun a'r Fro, 1986, dan feirniadaeth R. Geraint Gruffydd, Harri Pritchard Jones a Rhiannon Davies Jones, fe enillodd Ray Evans y Fedal Ryddiaith am Hunangofiant. Teitl ei chyfrol oedd 'Y Llyffant'. "Campwaith bychan," meddai R. Geraint Gruffydd. Rhoddwyd blas anghyffredin ar y cyffredin gan 'Alltud o'r Llwyn' sylwodd Rhiannon Davies Jones. Ychwanegodd, "Digwydd hyn am fod yma artist llenyddol yn meddu ar awen bardd."

Cydododaf Rhiannon a Ray Evans, ysgwydd wrth ysgwydd ym mhrif ddosbarth enillwyr y Fedal Ryddiaith.

Gan i'r tywydd gwael adael ei farc ar Steddfod Abergwaun tueddwn anghofio am y campwaith a enillodd y Fedal Ryddiaith ac i'r Goron gael ei hennill gan fardd o Gaerdydd. Daeth gwobr yr englyn ysgafn i Rymni i T. J. Harries. Roedd mwy i Eisteddfod Abergwaun na'r mwd.

Yn 1988 cyhoeddwyd nofel Ray Evans i blant, 'Cynffon Anti Meg' yn y gyfres 'Corryn' a thrwyddi y datblygwyd cysylltiad rhwng yr awdur ag Ysgol Gymraeg Caerffili. Ymwelodd â'r ysgol i drafod gyda'r athrawon y storiâu a ysgrifenyddwyd gan bob dosbarth. Gwahoddwyd y ferch o Lanybydder i feirniadu cystadleuaeth y Gadair yn eisteddfod Ysgol Gymraeg Caerffili. Beirniadodd y gystadleuaeth yn 1994, 1995 a 1996. Cadeiriwyd Elen Huws, Llinos Madeley a Carys Huws. Canmolodd waith y plant a'u parch at yr iaith. Yn Eisteddfodau Cenedlaethol Bro Dinefwr 1996 a Bro Ogwr 1998 roedd yn un o dri beirniad y Fedal Ryddiaith. Cafwyd yr un ymroddiad i'r gwaith o feirniadau yn Ysgol Gymraeg Caerffili ag a gafwyd wrth iddi gloriannu cystadleuaeth genedlaethol.

Rhyw wythnos ar ôl yr eisteddfod ym Mhen-y-Bont ar Ogwr daeth wyneb yn wyneb â golygydd y Cyfansoddiadau mewn archfarchnad yng Nghaerdydd. Cafodd ef ei chlywed hi gan Ray Evans am olygu yn drwm ei beirniadaeth ar gyfer ei chyhoeddi.

Brawddeg glo teyrnged John Roberts Williams i Jennie Eirian mis Mai 1982 oedd, "Beth ydyn ni'n wneud i'n pobol, deudwch?" Holaf innau wrth werthfawrogi gwaith safonol Ray Evans, "Beth ydyn ni'n wneud i'n prif lenorion, deudwch!"

Colofn Y Dysgwyr

gan Ann Lewis

Ers tair blynedd rydym wedi bod yn cofio'r miloedd ar filoedd a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, a dyma thema cerdd y mis yma. Teitl y gerdd yw 'Y Pabi Coch' ac mae'r pabi wrth gwrs yn symbol o'r bywydau a gollwyd. Mae I D Hooson y bardd yn disgrifio'r blodau yn tyfu yn haul yr haf a'u lliw coch yn danbaid fel tân.

Ond erbyn y pennill olaf, carwyd y pabi i wlad estron, mae'r blodau yn gwywo a'u petalau fel gwaed ar y llawr. Wrth gwrs, mae'r pabi yn cynrhychiolir dynion ifanc, yn hapus yn eu cartrefi nes i'r Rhyfel eu gorfodi i ymladd ac i farw mewn gwlad arall.

Y Pabi Coch

Roedd gwlith y bore ar dy foch
Yn ddafnau arian, flodyn coch,
A haul Mehefin drwy'r prynhawn
Yn bwrw'i aur i'th gwpan llawn.


Tithau ymhlith dy frodyr fyrdd
Yn dawnsio'n hoyw ar gwrlid gwyrdd
Cynefin fro dy dylwyth glân,
A'th sidan wisg yn fflam o dân.

Ond rhywun â didostur law
A'th gipiodd o'th gynefin draw
I estron fro, a chyn y wawr
Syrthiaist, â'th waed yn lliwio'r llawr.



ers tair blynedd : for three years miloedd ar filoedd a laddwyd : thousands upon thousands who were killed y
Rhyfel Byd Cyntaf : the First World War pabi : poppy bywydau a gollwyd : lives lost
yn danbaid : dazzling estron : foreign gwywo : wither, die gwaed : blood
cynrhychioli : represent gorfodi : force i ymladd ac i farw : to fight and die
gwlith : dew dafnau : drops yn bwrw : casting fyrdd : many cwrlid : quilt
cynefin fro dy dylwyth qlân : the familiar area of your dear family didostur : merciless syrthiaist : you fell

Yr Atebion: Dyma ni! Sawl un gawsoch chi'n iawn wrth wneud posau tudalen 5?



Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Testun llawenydd i ni oedd y newyddion bod Yr Athro Deri Tomos (Bangor) wedi'i ddewis i dderbyn Medal Wyddoniaeth a Thechnoleg Eisteddfod Genedlaethol Cymru eleni yn Ynys Môn. Cefndir ein llawenydd yw bod Deri yn un o blant Caerdydd o ran ei addysg ysgol cyn mynd i Brifysgol Caergrawnt. Y biowyddorau yw maes ei arbenigedd. Apwyntiwyd ef yn ddarlithydd ym Mangor yn 1985 ac o fewn deng mlynedd derbyniodd Gadair Bersonol yn y brifysgol. Ymddeolodd y llynedd o'i swydd benodol, ond ni fu hynny'n achos iddo gwtogi ar ei ymchwil yn ei arbenigedd nac ychwaith ei sêl dros drefnu a chyflwyno cyfleoedd i drafod, mewn ysgrif ac ar lafar, mewn sgysiau a chysiau am wyddoniaeth a hynny drwy'r Gymraeg. Mae dyfarniad y Fedal yn gydnabyddiaeth a diolch am wasanaeth diflino dros nifer o flynyddoedd dros yr achos hwn. Llongyfarchion lu!

Ddydd Sadwrn Ebrill 22ain ymunais mewn achlysur ym Mae Caerdydd gydag oddeutu 120 o 'ffrindiau' gwyddoniaeth i ddathlu Diwrnod y Ddaear a hynny'n un ymhlith 500 o achlysuron tebyg ar draws y byd. Dechreuwyd gyda nifer o anerchiadau ar risiau'r Senedd, yna gorymdaith draw at Techniquet lle cynhaliwyd nifer o weithgareddau difyr at ddant pob oedran. Bwriad y cyfan oedd tynnu sylw at bryder ymhlith gwyddonwyr pob gwlad bod tueddiadau gwrthwyddoniaeth yn cael eu datgan gan nifer gynyddol o wleidyddion ac eraill, nid yn lleiaf mewn perthynas â newid hinsawdd, ond hefyd datganiadau heb sail tystiolaeth ddibynadwy. Mynegwyd balchder bod gwyddoniaeth yn torri ar draws ffiniau o bob math.

Manteisiaf ar y cyfle hwn i longyfarch Llywodraeth Cymru am y cyfnodolyn gwyddoniaeth sy'n dwyn y teitl Advances Wales, sy'n rhoi gwybodaeth werthfawr (yn y ddwy iaith) am weithgarwch gwyddonol amrywiol ar draws Cymru. Mae'r cyflwyniadau yn gryno gyda chynulleidfia anarbenigol mewn golwg. Mae modd ei gael yn rhad ac am ddim drwy gysylltu gyda Jennifer Clark (innovation@wales.gsi.gov.uk).

Dr Neville Evans



Dyma lun o hen orsaf rheilffyrdd Penyrheol, lle stopiai'r trên a ddeuai o Senghennydd, drwy Abertridwr ac ymlaen i Gyffordd Aber. Gellir gweld safle'r hen orsaf hon wrth deithio i lawr o gylchdro'r "Bowls" ((Tesco, bellach) tuag at oleuadau Hendredenni. Ar ben y rhiw fer gellir gweld llwybr cerdded ar y dde lle rhedai'r rheilffordd a draw i'r ochr chwith. Ond o edrych yn fanwl gellir gweld adfeilio traphont Penyrheol yn y cefndir. Dyma lle rhed y ffordd osgoi erbyn hyn.

Diolch am y llun— cofiwch y byddai'r golygydd wrth ei fodd o gael cyhoeddi eich cyfraniad.

Teithiau Clwb Cerdded

Gorffennaf 5 - Fferm Penrhiwgwaith—cwrdd yn eu iard fferm - NP120ST

Gorffennaf 12 - **Mynydd Caerffili** - Cwrdd ym maes Parcio 'Black Cock Inn' CF831BD

Gorffennaf 19 - Pontywaun - cwrdd yn Eglwys Ysbrydol Pontywaun NP117FR

Gorffennaf 26 - Parc Penallta—cwrdd ger y Ganolfan addysg CF827GN

**S'A'D'W'R'N
S'I'A'R'A'D'**

Gorffennaf 29^{ain}

10:00-12:00

Caffi The Rock, Bedwas
CF83 8EA

mentercaerffili.cymru Gweithgareddau'r Haf

Dydd Llun Gorffennaf 24

Cwrs Coginio i blant oed 8-12
10:00-15:00 - £15 Lleoliad i'w chadarnhau

Dydd Mercher Gorffennaf 26

Picnic yn y parc i deuluoedd
11:00-13:00 Parc Morgan Jones Caerffili



Hoffech chi ddod i fwynhau te prynhawn hyfryd i gyfeiliant y delyn? Cyfle i sgwrsio yn Gymraeg?

Dewch i Ganolfan y Glowyr Caerffili

4.30 - 6.00

Ddydd Gwener, Gorffennaf 7

Tocynnau £10

Cysylltwch ag Ann Lewis ar
cathdduglanffrwd@yahoo.co.uk

mentercaerffili.cymru

TAITH TEULU



LEGOLAND

DYDD GWENER 1 MEDI 2014

Ymunwch a ni ar daith i'r teulu i Legoland. Bwciwch gyda ni am £35 yr un NEU archebwch tocynnau eich hunain gyda tocyn 2 am 1 / pass Merlin. Plant o dan 3 am ddim.

Gadael Tesco Ystrad Mynach - 7:00am

Dychwelyd erbyn - 8:00pm

RHAID BWCIO CYN GORFFENNAF 21

bethanjones@mentercaerffili.cymru
01443820913



mentercaerffili.cymru

Taith Sioe Frenhinol Cymru

£10

Dydd Iau Gorffennaf 27 July 2017

£10 am gludiant bws. Bydd rhaid talu am docyn mynediad ar wahân.



Gadael o orsaf bws Caerffili - 9:00am
Gadael maes y sioe erbyn - 17:00pm

I archebu lle cysylltwch â:
01443820913 bethanjones@mentercaerffili.cymru

Clwb Cànadram

Y Memo, Trecelyn

Nos Iau 5:00-

6:30pm

Theatr Ieuenctid

Sefydliad Y Glowyr

Coed Duon

Nos Fawrth

6:00-7:30pm

£3.50 yr wythnos

IOGA

Sesiynnau wythnosol

Nos Iau

5:00-6:00pm

Capel Siloh Ystrad Mynach

Clwb Ieuenctid

YMCA Bargoed

Dydd Mawrth

6:30-8:30pm

Pêl-bluen badminton.

Dewch i ymuno â ni am gêm o bêl-bluen — Cyfle i ymarfer eich **Cymraeg** a chadw'n heini ar yr un pryd. An opportunity to practise your **Cymraeg** and keep fit at the same time.

Pryd | When?

Bob dydd Gwener | every Friday
1-2pm

Ble | Where?

Canolfan Hamdden Pont-y-pŵl

Croeso i bawb — bob lefel o brofiad

All levels welcome.

Gwisgwch yn addas

Dress accordingly

Bosib llogi rased o'r ganolfan

Rackets available to hire from the centre.



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gwent

CYMRAG

Dysgu
Learn



Coleg Gwent

Cyrsiau Penwythnos

Pob un rhwng 8:45 a 17.00

24-28/07/17 Llun-Gwe Campws Pont-y-pŵl

30/06-02/07/17 Gwe-Sul Llambed

Mae'r **Ysgol Haf** yn cynnwys 30 awr o wersi dros gyfnod o bum niwrnod. Bydd 8 lefel wahanol o ddosbarthiadau, gan gynnwys dosbarth i ddechreuwyr pur. **£50 yn unig.**

TACSI GORSAF CAERFFILI

Cysylltwch â KEITH ar 022 362364 neu 07914 355195

facebook.com/tacsigorsafcaerffili



Defnyddiwch Gardiau Debyd/Credyd

Cyngerdd Haf
gyda
C.Ô.R. CYFEILYDD
ARWEINYDD OSIAN ROWLANDS JEFFREY HOWARD

REQUIEM MOZART

22 | 7 | 2017 7pm

Tocynnau **£10**
Eglwys Martin Sant, Caerffili

Hefyd cerddoriaeth gan | Also music by
Monteverdi | Byrd | Mendelssohn | Purcell | Durufle
Stanford | Sir Karl Jenkins

Tocynnau | Tickets: Osian Rowlands - 07980 302285 | Elw tuag at
osian_ilyr@hotmail.com Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd
Eisteddfod y Cymoedd

Gyda chellosgaeth | With support from Tŷ CERDD

Saib@Siloh – gyda loan

Cyfarfod defosiynol misol – croeso i bawb

BEIBL BYW

10.30 – 11.30 ar fore Llun

3 Gorffennaf - Sefyll o flaen Duw (1 loan 3:11 -24)

Astudiaethbbb Llundiaeth Gweddi

ymholiadau@siloh.co.uk / info@siloh.co.uk /

www.siloh.co.uk

CF82 7AF 01443 813617

Llyfrau'r Enfys
Facebook/llyfraurenfys
Twitter @llyfraurenfys
Vikki Alexander-07970172754



Happy Snappers  **Llundiaeth Llawen**

Enthusiastic Amateur Photographers
All Occasions Considered - Reasonably Priced
Gwasanaeth Cymraeg Ar Gael
Tracey 07764 750916 Eluned 07825 615349



01443 879396

Dillad Gwaith * Cit Hamdden * Gwisg Ysgol



JansanWear

Uned G Ystad Ddiwydiannol Bowen, Aberbargoed, CF819EP

Pob Nos Fawrth

7:00yh

Côr Cwm Ni

Capel Bryn Seion,

Ystrad Mynach

Croeso i Aelodau Newydd

Llun y Mis

gan Margaret Jones



Nyrs wedi ymddeol sy'n byw yn Draethen yw Margaret Jones. Mae wedi bod yn aelod brwd o Grŵp Arlunio Dydd Gwener ers y dechrau cyntaf. Mae wedi arddangos yn "Cwmni" sawl gwaith cyn hyn.

